Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd
Planning and Economic Development Department
Cyfarwyddwr / Director · Henry Roberts

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

17 August, 2001

[redacted]
Gweinyddiaeth Adeiladau Rhestredig
Cadw
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cysylltwch â / Contact [redacted]
☎ Uniongyrchol / Direct Line
Cyfeiriad eBost/eMail address
Ein Cyf / Our Ref 2/2/5/LB630GWM/swj
Eich Cyf / Your Ref A/CL 144/02/283

Annwyl Madam,

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
Rhifau 4 a 5 Llawr Gors, Pwllheli, Gwynedd

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 3 Awst, 2001 a'ch llythyrau atgoffa niferus a dderbyniwyd cyn hynny. Ymddiheuraf am beidio eich hysbysu o benderfyniad Pwyllgor Cynllunio Gorffennaf 2000 i dderbyn argymhelliad y swyddogion i beidio gweithredu achos gorfodaeth adeilad rhestredig a gofyn i Cadw ddi-restru'r adeiladau.

Y prif reswm dros beidio ymateb i lythyrau atgoffa Cadw oedd y ffaith eu bod i gyd wedi eu ysgrifennu yn uniaith Saesneg ac yn groes i bolisi y Cyngor i dderbyn llythyrau Cymraeg neu ddwyieithog yn unig gan gyrff yng Nghymru.

Amgaeaf gopi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ynghyd â'r cofnodion i'ch sylw a byddaf yn falch o'ch arweiniad ynglyn ac a yw Cadw yn fodlon i ddi-restru'r adeilad ac, os yn fodlon, sut y bwriedir ymgymeryd â'r gwaith.

Pwysleisaf nad bwriad o herio rhestriad Cadw sydd yma ond penderfyniad wedi ei selio ar haeddiant yr achos a'r ffaith bod y perchennog yn barod wedi cael dirwy llys sylweddol am ymgymeryd â gwaith heb ganiatad.

Byddaf yn falch o dderbyn eich arweiniad ynglyn â'r cais i ddi-restru.

Yn gywir,

[redacted]

Gruffydd Wyn Morris
Rheolwr Cynllunio

Amg.

Swyddfa Ardal Dwyfor
Ffordd y Cob, Pwllheli,
Gwynedd, LL53 5AA
Ffôn / Tel: 01758 613131
Ffacs / Fax: 01758 704053

(19)

01-08-21(07)

Gwynedd Council

Planning and Economic Development Department

17 August 2001

[redacted]
Listed Buildings Administration
Cadw
Cathays Park
Cardiff CF10 3 NQ

Dear Madam

Planning Act (Listed Buildings and Conservation Areas) 1990
Numbers 4 and 5 Llawr Gors, Pwllheli, Gwynedd

I refer to your letter dated 3 August 2001 and the numerous reminders received previously. I apologise for not informing you of the Planning Committee's decision in July 2000 to accept the officers' recommendation not to implement a listed building compulsory order and asking Cadw to remove the listed buildings status on the buildings, [redacted]

The main reason for not responding to Cadw's reminders was the fact that they had all been written in English and this is contrary to the Council's policy of only accepting Welsh or bilingual letters from bodies in Wales.

I enclose a copy of the report presented to the Committee as well as the minutes for your attention and I would be pleased to receive your guidance about whether Cadw is willing to unlist the building and if so, how the work will be done.

I emphasise that it is not our intention to challenge Cadw's listings but a decision based on the value of the case and the fact that the owner has already received a heavy court fine for undertaking work without permission.

I would be pleased to receive your guidance on the application for unlisting.

Yours sincerely

[redacted]
Planning Manager